# CYNLLUN PENSIWN AC YSWIRIANT PRIFYSGOL BANGOR BUPAS

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Datganiad Egwyddorion Buddsoddi

**Pwrpas y Datganiad hwn**

Mae’r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi hwn wedi’i baratoi gan Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor (y “Cynllun”). Mae'r datganiad hwn yn nodi'r egwyddorion sy'n llywodraethu penderfyniadau'r Ymddiriedolwyr i fuddsoddi asedau'r Cynllun.

Mae strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn deillio o amcanion buddsoddi'r Ymddiriedolwyr. Mae'r amcanion wedi'u hystyried ym mhob cam o gynllunio, gweithredu a monitro'r strategaeth fuddsoddi.

Mae manylion trefniadau buddsoddi'r Cynllun wedi'u nodi yn y Ddogfen Gweithredu Buddsoddiadau.

**Llywodraethu**

Mae Ymddiriedolwyr y Cynllun yn gwneud pob penderfyniad strategol mawr, gan gynnwys ymhlith pethau eraill, ddyrannu asedau'r Cynllun a phenodi a dadbenodi rheolwyr buddsoddi.

Wrth wneud penderfyniadau o'r fath, a phan fo'n briodol, mae'r Ymddiriedolwyr yn cymryd cyngor ysgrifenedig priodol. Mae Isio, sef ymgynghorwyr buddsoddi'r Ymddiriedolwyr, yn gymwys oherwydd eu gallu wrth ymdrin â materion ariannol a'u profiad ymarferol, ac mae ganddynt y wybodaeth a'r profiad priodol. Gall tâl yr ymgynghorwyr buddsoddi fod yn ffi sefydlog neu'n seiliedig ar yr amser a weithiwyd, fel y trafodir hynny gan yr Ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau gwerth gorau i’r Cynllun. **Amcanion Buddsoddi**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi asedau'r Cynllun gyda'r nod o sicrhau y gellir talu buddion presennol a dyfodol yr holl aelodau. Bydd sefyllfa ariannu'r Cynllun yn cael ei hadolygu ar sail barhaus i asesu'r sefyllfa mewn perthynas â'r targed ariannu, ac a yw'r trefniadau buddsoddi yn parhau i fod yn briodol i amgylchiadau'r Cynllun. Mae targed ariannu'r Cynllun wedi'i nodi yn y Datganiad Egwyddorion Ariannu.

Prif amcan buddsoddi'r Cynllun yw sicrhau bod y Cynllun yn gallu bodloni’r taliadau buddion a addawyd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Cyflawnir hyn drwy gyfuniad o gyfraniadau cynlluniedig ac adenillion ar fuddsoddiad o tua 2.6% y flwyddyn uwchlaw’r adenillion a geir o bortffolio cyfateb rhwymedigaethau o fondiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Dros y tymor hwy, nod y Cynllun yw cyflawni a chynnal sefyllfa a ariennir yn llawn ar sail Darpariaethau Technegol a thrwy hynny leihau dibyniaeth y Cynllun ar gyfamod y cyflogwr.

**Y Strategaeth Fuddsoddi**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn defnyddio dull cyfannol wrth ystyried a rheoli risgiau wrth lunio strategaeth fuddsoddi'r Cynllun.

Lluniwyd strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r ffactorau a nodir yn Atodiad B. Mae'r ystyriaethau'n cynnwys natur a hyd ymrwymiadau'r Cynllun, y risgiau o fuddsoddi yn y gwahanol ddosbarthiadau o asedau, goblygiadau'r strategaeth (o dan amrywiol sefyllfaoedd) o ran lefel y cyfraniadau sydd eu hangen gan y cyflogwr i ariannu'r Cynllun, a hefyd cryfder cyfamod y cyflogwr sy'n noddi'r cynllun. Ystyriodd yr Ymddiriedolwyr rinweddau ystod o ddosbarthiadau o asedau.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod y strategaeth fuddsoddi'n ddarostyngedig i risgiau, yn arbennig y risg na fydd perfformiad yr asedau a gwerth cyfrifedig y rhwymedigaethau yn cyfateb â'i gilydd. Mae'r risg hon yn cael ei monitro drwy asesu'r sefyllfa ariannu a nodweddion yr asedau a'r rhwymedigaethau'n rheolaidd. Rheolir y risg hon drwy fuddsoddi mewn asedau y disgwylir iddynt berfformio'n well na'r rhwymedigaethau dros y tymor hir, a hefyd drwy fuddsoddi mewn portffolio o asedau amrywiol iawn gyda'r nod o leihau (cyhyd â phosibl) anwadalrwydd mewn cymhariaeth â'r rhwymedigaethau.

Mae asedau'r Cynllun yn cynnwys yn bennaf fuddsoddiadau sy'n cael eu masnachu ar farchnadoedd rheoledig.

**Trefniadau Rheoli Buddsoddiadau**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi sawl rheolwr buddsoddi i reoli asedau'r Cynllun fel y'u rhestrir yn y Ddogfen Gweithredu Buddsoddiadau / Datganiad Egwyddorion Buddsoddi. Caiff rheolwyr buddsoddi eu rheoleiddio o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000.

Mae'r holl benderfyniadau am reoli'r asedau o ddydd i ddydd wedi'u dirprwyo i'r rheolwyr buddsoddi trwy gytundeb ysgrifenedig. Mae'r ddirprwyaeth yn cynnwys penderfyniadau ynghylch:

- Dethol, cadw a gwireddu buddsoddiadau gan gynnwys ystyried yr holl ystyriaethau ariannol perthnasol wrth wneud y penderfyniadau hyn;
- Ymarfer yr hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiadau;
- Ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi a rhanddeiliaid eraill, lle bo'n briodol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn rhoi ystyriaeth i bolisïau rheolwyr buddsoddi wrth ddewis a monitro rheolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried y targedau perfformiad a ddefnyddir i werthuso'r rheolwyr buddsoddi. Disgwylir i'r rheolwyr buddsoddi arfer y pwerau buddsoddi a ddirprwywyd iddynt, gan ddilyn yr egwyddorion a gynhwysir yn y datganiad hwn, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Gan fod asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn cronfeydd cyfun, y rheolwr buddsoddi sy'n trefnu meddiant y daliadau.

**Monitro ac Ymgysylltu â Rheolwyr Buddsoddi**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro ac yn ymgysylltu â rheolwyr buddsoddi'r Cynllun a rhanddeiliaid eraill ynglŷn ag amrywiaeth o faterion. Isod ceir crynodeb o'r meysydd a gwmpesir a sut mae'r Ymddiriedolwyr yn ceisio ymgysylltu ynglŷn â'r materion hyn gyda rheolwyr buddsoddi.

| Meysydd ar gyfer ymgysylltu | Dull o fonitro ac ymgysylltu | Amgylchiadau ar gyfer monitro ac ymgysylltu ychwanegol |
|---|---|---|
| Perfformiad, Strategaeth a Risg | Mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn adroddiad perfformiad chwarterol sy'n manylu ar berfformiad, strategaeth a risgiau cyffredinol y buddsoddiadau gwaelodol, a gaiff eu hystyried yng nghyfarfod yr Ymddiriedolwyr perthnasol.<br><br>Gellir gwahodd rheolwyr buddsoddi'r Cynllun i roi cyflwyniad i'r Ymddiriedolwyr ynghylch perfformiad, strategaeth a risg. | - Mae newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i'r strategaeth fuddsoddi.<br>- Mae'r lefelau risg o fewn yr asedau a reolir gan y rheolwyr buddsoddi wedi cynyddu i lefel uwchlaw a thu hwnt i ddisgwyliadau'r Ymddiriedolwyr.<br>- Tanberfformiad yn erbyn yr amcan perfformiad dros y cyfnod y mae'r amcan hwn yn berthnasol iddo. |
| Ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, corfforaethol a llywodraethu ac ymarfer hawliau | - Mae rheolwyr buddsoddi'r Ymddiriedolwyr yn darparu adroddiadau blynyddol ar sut y maent wedi ymgysylltu â materion cymdeithasol, amgylcheddol, corfforaethol a llywodraethu.<br>Mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn gwybodaeth gan eu hymgynghorwyr buddsoddi ar ddulliau'r rheolwyr buddsoddi o ymgysylltu. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ymgysylltu, trwy eu hymgynghorydd buddsoddi, â rheolwyr buddsoddi a/neu bersonau perthnasol eraill ynghylch materion perthnasol o leiaf unwaith y flwyddyn. | - Nid yw'r rheolwr wedi gweithredu yn unol â'i bolisïau a'i fframweithiau. |

Trwy'r ymgysylltu a ddisgrifir uchod, bydd yr Ymddiriedolwyr yn gweithio gyda'r rheolwyr buddsoddi i wella eu haliniad â'r polisïau uchod. Lle na welir gwelliant digonol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu penodiad y rheolwr buddsoddi perthnasol ac yn ystyried terfynu'r trefniant.

**Buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â'r cyflogwr**

Polisi'r Ymddiriedolwyr yw peidio â dal unrhyw fuddsoddiadau sy'n gysylltiedig â'r cyflogwr fel y'u diffinnir yn Neddf Pensiynau 1995 ac yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Buddsoddi) 2005 ac eithrio pan fo'r Cynllun yn buddsoddi mewn cynlluniau buddsoddi cyfunol a all ddal buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â'r cyflogwr. Yn yr achos hwn, ni fydd cyfanswm yr amlygiad i fuddsoddiadau sy'n gysylltiedig â'r cyflogwr yn fwy na 5% o gyfanswm gwerth asedau'r Cynllun. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro hyn yn barhaus i sicrhau cydymffurfiaeth.

**Buddsoddiadau uniongyrchol**

Mae buddsoddiadau uniongyrchol, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Pensiynau 1995, yn gynhyrchion a brynir heb eu dirprwyo i reolwr buddsoddi drwy gontract ysgrifenedig. Wrth ddewis ac

adolygu unrhyw fuddsoddiadau uniongyrchol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn cael cyngor ysgrifenedig priodol gan eu hymgynghorwyr buddsoddi.

**Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol**

Mae'r Cynllun yn darparu cyfleuster i aelodau dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i gynyddu eu buddion pan fyddant yn ymddeol. Amcan yr Ymddiriedolwyr yw darparu cronfeydd sy'n galluogi aelodau i gynhyrchu adenillion hirdymor addas, sy'n gyson â'u disgwyliadau rhesymol. Mae'r cronfeydd buddsoddi a gynigir i aelodau'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan Prudential Assurance Company Limited.

Bydd y darparwr cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol a benodir a'r cronfeydd cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol y dewisir eu cynnig i aelodau'n cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd gan yr Ymddiriedolwyr (gan gynnwys perfformiad y darparwyr). Lle bo modd, bydd perfformiad y darparwr cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yn cael ei fesur mewn perthynas â'r meincnodau unigol a'r amcanion ar gyfer y cyllid a gynigir a/neu mewn perthynas â darparwyr eraill sy'n cynnig opsiynau tebyg o ran cronfeydd.

**Cydymffurfio**

Paratowyd y Datganiad hwn yn unol â Deddf Pensiynau 1995, Deddf Pensiynau 2004, a Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Buddsoddi) 2005. Cyn paratoi'r Datganiad hwn neu cyn ei adolygu maes o law, ymgynghorodd yr Ymddiriedolwyr â'r cyflogwr sy'n noddi a derbyniwyd cyngor ysgrifenedig priodol. Adolygir y Datganiad o leiaf bob tair blynedd, ac yn ddi-oed ar ôl unrhyw newid sylweddol yn y trefniadau buddsoddi.

**Llofnod:** [redacted] Michael Wilson, Ymddiriedolwr

**Dyddiad:**....................17/01/2023

**Atodiad A – Credoau Buddsoddi**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi llunio set o gredoau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu i helpu i danategu'r penderfyniadau buddsoddi cyffredinol. Mae credoau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yr Ymddiriedolwyr wedi'u crynhoi isod.

**Rheoli Risg**

1. Gall ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu fod yn rhai ariannol ac mae rheoli risgiau megis newid yn yr hinsawdd yn rhan o ddyletswydd ymddiriedol yr Ymddiriedolwyr.
2. Mae'r Ymddiriedolwyr yn dymuno buddsoddi mewn rheolwyr a chronfeydd sy'n dangos yr arferion gorau o ran integreiddio materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. Gwneir gogwyddiadau cadarnhaol i ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu pan fydd yr Ymddiriedolwyr yn teimlo y bydd y buddsoddiadau hynny'n cynhyrchu adenillion hirdymor gwell a/neu risg is.
3. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried gwerthoedd amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a meysydd blaenoriaeth y noddwr, pan nad yw hyn yn gwrthdaro â dyletswydd ymddiriedol yr Ymddiriedolwyr.

**Dull/Fframwaith**

4. Mae ar yr Ymddiriedolwyr eisiau deall sut mae rheolwyr buddsoddi yn integreiddio ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn eu proses fuddsoddi ac yn eu gweithgareddau stiwardiaeth; a byddant yn cynnwys cyfeiriad at alluoedd amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu wrth chwilio am reolwyr yn y dyfodol.
5. Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu y gall sectorau sydd â'u bryd ar weld effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol fod yn perfformio'n well wrth i wledydd drawsnewid i economïau mwy cynaliadwy. Lle bo modd, bydd y strategaeth fuddsoddi yn ceisio dyrannu i'r sectorau hyn.
6. Mae'r Ymddiriedolwyr yn rhoi pwys arbennig ar amlygiad i risg hinsawdd ac felly byddant yn cymryd camau i liniaru amlygiad i hyn lle bo hynny'n ymarferol.

**Pleidleisio ac Ymgysylltu**

7. Mae ar yr Ymddiriedolwyr eisiau deall dull pob rheolwr buddsoddi o ymgysylltu â chwmnïau portffolio ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn.
8. Mae ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn berthnasol i bob dosbarth o asedau a, boed nhw'n fuddsoddiadau ecwiti neu ddyled, mae gan reolwyr gyfrifoldeb i ymgysylltu â chwmnïau ynghylch ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.
9. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod ymgysylltu â rheolwyr yn fwy effeithiol er mwyn ysgogi newid na dargyfeirio ac felly byddant yn ceisio cyfleu camau gweithredu amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu allweddol i'r rheolwyr yn y lle cyntaf.

**Adrodd a Monitro**

10. Mae ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn ddeinamig ac yn esblygu'n barhaus, felly bydd yr Ymddiriedolwr yn derbyn hyfforddiant yn ôl yr angen i ddatblygu ei wybodaeth.
11. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro metrigau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu sy'n addas ac yn fesuradwy i ddeall effaith buddsoddiadau'r Cynllun.
12. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cyfathrebu'r dull amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu i aelodau'r Cynllun fel y bo'n briodol.

**Cydweithredu**

13. Dylai rheolwyr buddsoddi fod yn ymgysylltu ac yn cydweithio â chyfranogwyr eraill y farchnad i godi safonau buddsoddi amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a hwyluso'r arferion gorau yn ogystal â chofrestru a chydymffurfio â chodau cyffredin fel UNPRI, TCFD a'r Cod Stiwardiaeth.

**Gweithredu'r Polisi**

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn gweithredu'r polisi drwy'r camau canlynol:

i. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i ddatblygu eu dealltwriaeth o ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu trwy hyfforddiant am y ffactorau hynny a thrwy feddu ar wybodaeth gyfredol am y cyfleoedd buddsoddi cynaliadwy diweddaraf.
ii. Bydd credoau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yr Ymddiriedolwyr yn cael eu hadolygu'n ffurfiol bob dwy flynedd neu'n amlach os gwêl yr Ymddiriedolwyr bod hynny'n angenrheidiol.
iii. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ymgorffori meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu fel rhan o ymarferion dewis rheolwyr newydd, gan roi ystyriaeth benodol i ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ar gyfer mandadau ar wahân.
iv. Bydd yr Ymddiriedolwyr, gyda chymorth Isio, yn cynnal adolygiadau blynyddol o ddull y rheolwyr buddsoddi o integreiddio ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.
v. Yn dilyn yr adolygiad cychwynnol, bydd camau gweithredu'n cael eu nodi pan nad yw'r rheolwyr buddsoddi yn gweithredu'n unol â chredoau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yr Ymddiriedolwyr. Bydd Isio yn ymgysylltu â phob rheolwr ar ran yr Ymddiriedolwyr i unioni'r materion hyn lle bo modd.
vi. Bydd gweithgareddau stiwardiaeth ac ymgysylltu'r rheolwyr buddsoddi yn cael eu monitro'n barhaus a bydd yr Ymddiriedolwyr yn ceisio deall effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn. vii. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cynnwys pynciau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu wrth gyfathrebu ag aelodau.

**Monitro ac Adolygu'r Polisi**

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro asedau'r Cynllun yn erbyn y Polisi hwn ar sail barhaus, gyda chymorth Isio. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gweld y gwaith o ddatblygu'r Polisi fel proses barhaus wrth i ddulliau o integreiddio ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu barhau i esblygu dros amser. Wrth adolygu'r Polisi, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol yn y farchnad er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio dull sy'n gyson â'r arferion gorau.

**Atodiad B – Risgiau, Ystyriaethau Ariannol Berthnasol (gan gynnwys materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a newid hinsawdd) a materion anariannol**

Mae rhestr anghyflawn o risgiau ac ystyriaethau ariannol berthnasol y mae'r Ymddiriedolwyr wedi'u hystyried ac wedi ceisio eu rheoli i'w gweld isod.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn mabwysiadu dull rheoli risg integredig. Nodir y tri risg allweddol sy'n gysylltiedig â'r fframwaith hwn a sut y cânt eu rheoli isod:

| **Risgiau** | **Diffiniad** | **Polisi** |
|---|---|---|
| Buddsoddi | Y risg bod sefyllfa'r Cynllun yn gwaethygu oherwydd bod yr asedau'n tanberfformio. | Dewis amcan buddsoddi sy'n gyraeddadwy ac sy'n gyson â sail ariannu'r Cynllun a chryfder cyfamod y cyflogwr sy'n noddi. Buddsoddi mewn portffolio amrywiol o asedau. |
| Ariannu | I ba raddau y mae diffyg asedau ar gael yn y Cynllun i ddiwallu ar gyfer llifoedd arian rhwymedigaethau parhaus ac i'r dyfodol. | Ystyrir y risg ariannu fel rhan o adolygiad y strategaeth fuddsoddi a'r prisiad actiwaraidd. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cytuno ar sail briodol, ar y cyd â'r strategaeth fuddsoddi, i sicrhau y cytunir ar gynllun teithio priodol i reoli'r risg ariannu dros amser. |
| Cyfamod | Y risg na fydd y cyflogwr sy'n noddi yn gallu parhau i ddarparu'r gefnogaeth ariannol sy'n ofynnol i'r Cynllun. | Wrth ddatblygu amcanion buddsoddi ac ariannu'r Cynllun, mae'r Ymddiriedolwyr yn cymryd i ystyriaeth gryfder y cyfamod gan sicrhau bod lefel y risg y mae'r Cynllun yn agored iddo ar lefel briodol y gall y cyfamod ei chynnal. |

Mae'r Cynllun yn agored i nifer o risgiau sylfaenol sy'n ymwneud â strategaeth fuddsoddi'r Cynllun, a chânt eu crynhoi isod:

| Risg | Diffiniad | Polisi |
|---|---|---|
| Cyfraddau llog a chwyddiant | Y risg o ddiffyg cyfatebiaeth rhwng gwerth asedau'r Cynllun a gwerth presennol rhwymedigaethau yn sgil newidiadau mewn cyfraddau llog a disgwyliadau chwyddiant. | Ymddigolledu 100% o'r risgiau hyn yn fras. |

| | | |
|---|---|---|
| Hylifedd | Anawsterau wrth godi digon o arian parod pan fo angen heb gael effaith andwyol ar werth teg y buddsoddiad ar y farchnad. | Cynnal dyraniad digonol o ran asedau hylifol fel bod clustog gochelgar i dalu buddion aelodau wrth iddynt ddod yn ddyledus (gan gynnwys gwerthoedd trosglwyddo), a darparu gwarant cyfatebol i'r rheolwr ecwiti synthetig/buddsoddi ar sail rhwymedigaethau. |
| Marchnad | Profi colledion oherwydd ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad cyffredinol y marchnadoedd ariannol. | Parhau i fod ag amrywiaeth briodol yn y portffolio ac ymddigolledu unrhyw risgiau y tybir eu bod yn "risgiau heb eu gwobrwyo", lle bo hynny'n ymarferol. |
| Credyd | Diffygdalu taliadau sy'n ddyledus fel rhan o gontract sicrwydd ariannol. | Arallgyfeirio'r risg hon trwy fuddsoddi mewn ystod o farchnadoedd credyd ar draws gwahanol fannau daearyddol a gwahanol sectorau.<br>Penodi rheolwyr buddsoddi sy'n rheoli'r risg hon yn weithredol trwy geisio buddsoddi yn unig mewn gwarantau dyled lle mae'r cynnyrch sydd ar gael yn digolledu'r Cynllun yn ddigonol am y risg o ddiffygdalu. |
| Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu | Amlygiad i ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i newid yn yr hinsawdd, a all effeithio ar berfformiad buddsoddiadau'r Cynllun. | Cymhwyso'r polisi amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu fel y nodir uchod, gan gynnwys wrth benodi a monitro rheolwyr |
| Arian cyfred | Y potensial y gall symudiadau arian cyfred anffafriol gael effaith ar fuddsoddiadau'r Cynllun. | - Buddsoddi mewn asedau sterling yn bennaf, a dim ond cymryd risg ag arian cyfred pan fydd yn cynyddu pa mor amrywiol yw'r portffolio.<br>- Lle bo mandadau'r Cynllun yn agored i gyd-destunau tramor, bydd yr Ymddiriedolwyr yn gweithredu ymddigolllediad arian cyfred sy'n briodol ar gyfer y mandad hwnnw. |
| Anariannol | Unrhyw ffactor na ddisgwylir iddo gael effaith ariannol ar fuddsoddiadau'r Cynllun. | Nid yw materion anariannol yn cael eu hystyried wrth ddewis, cadw neu wireddu buddsoddiadau. |

**Atodiad C**

Mae gan yr Ymddiriedolwyr y polisïau canlynol mewn perthynas â threfniadau rheoli buddsoddiadau ar gyfer y Cynllun:

**Sut y caiff y rheolwyr buddsoddi eu cymell i alinio eu strategaeth a'u penderfyniadau buddsoddi â pholisïau'r Ymddiriedolwyr**

- Gan fod y Cynllun yn cael ei fuddsoddi mewn cronfeydd cyfun, nid oes lle i'r cronfeydd hyn deilwra eu strategaeth a'u penderfyniadau yn unol â pholisïau'r Ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn portffolio o gronfeydd cyfun sy'n cyd-fynd â'r amcan strategol.

- Mae mandad Seilwaith Adnewyddadwy'r Cynllun yn amodol ar ffi sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

**Sut y caiff y rheolwyr buddsoddi eu cymell i wneud penderfyniadau ar sail asesiadau o berfformiad ariannol ac anariannol tymor canolig i dymor hir dyroddwyr dyled neu ecwiti ac ymgysylltu â nhw i wella perfformiad yn y tymor canolig i'r tymor hir.**

- Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu perfformiad y rheolwyr buddsoddi mewn perthynas ag amcanion tymor canolig a thymor hir fel y maent wedi eu cofnodi yn y cytundebau rheoli buddsoddiadau.
- Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro gweithgarwch ymgysylltu a phleidleisio'r rheolwyr buddsoddi yn flynyddol fel rhan o'u proses monitro amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn cymell y rheolwyr buddsoddi i wneud penderfyniadau ar sail perfformiad anariannol.

**Sut mae’r dull (a’r gorwel amser) a ddefnyddir i werthuso perfformiad rheolwyr buddsoddi a’r tâl am eu gwasanaethau yn driw i bolisïau’r Ymddiriedolwyr**

- Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu perfformiad holl fuddsoddiadau'r Cynllun ar sail cost net i sicrhau mesuriad cywir o berfformiad yn erbyn amcanion buddsoddi.

- Mae'r Ymddiriedolwyr yn gwerthuso perfformiad dros y cyfnod amser a nodir yn amcan perfformiad y rheolwyr buddsoddi, sef 3 i 5 mlynedd fel arfer.

**Y dull o fonitro costau trosiant portffolio yr eir iddynt gan reolwyr buddsoddi a sut maent yn diffinio ac yn monitro trosiant portffolio a dargedwyd neu ystod trosiant**

- Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn monitro costau trosiant yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r rheolwyr buddsoddi yn cael eu cymell i leihau costau gan eu bod yn cael eu mesur ar sail cost net.

**Hyd trefniadau'r Cynllun gyda'r rheolwyr buddsoddi**

- Ystyrir hyd y trefniadau yng nghyd-destun y math o gronfa y mae’r Cynllun yn buddsoddi ynddi. o Yn achos cronfeydd ac iddyn derfyn neu gronfeydd ac iddynt gyfnod cloi-i-mewn mae'r Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod amserlen y buddsoddiad neu'r cloi-i-mewn yn unol ag amcanion yr Ymddiriedolwyr a gofynion hylifedd y

Cynllun. o Yn achos cronfeydd penagored, mae'r hyd yn hyblyg, a bydd yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd yn ystyried priodoldeb y buddsoddiadau hyn ac a ddylid parhau i'w dal.

**Polisi Pleidleisio - Sut mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i reolwyr buddsoddi bleidleisio ar eu rhan**

- Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydnabod eu cyfrifoldeb am y polisïau pleidleisio a weithredir ar eu rhan gan reolwyr buddsoddi'r Cynllun.

**Polisi Ymgysylltu - Sut bydd yr Ymddiriedolwyr yn ymgysylltu â rheolwyr buddsoddi, asedau uniongyrchol, ac eraill ynghylch 'materion perthnasol'**

- Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydnabod eu cyfrifoldeb am y polisïau ymgysylltu a weithredir ar eu rhan gan reolwyr buddsoddi'r Cynllun.
- Bydd yr Ymddiriedolwyr, trwy eu hymgynghorydd buddsoddi, yn ymgysylltu â rheolwyr buddsoddi a/neu bersonau perthnasol eraill ynghylch materion perthnasol o leiaf unwaith y flwyddyn.
- Mae enghreifftiau o weithgareddau stiwardiaeth y mae'r Ymddiriedolwyr wedi'u hystyried wedi'u rhestru isod.
    - Dewis a phenodi rheolwyr asedau – bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried polisïau a gweithgareddau stiwardiaeth rheolwyr posibl
    - Ymgysylltu a monitro rheolwyr asedau – yn flynyddol, mae'r Ymddiriedolwyr yn asesu gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu eu rheolwyr asedau. Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn bwydo i mewn i benderfyniadau buddsoddi'r Ymddiriedolwyr.